Improving homes, Changing lives


Care & Repair Cymru

## Care & Repair

# Ysbyty i Gartref Iachach

---

### Gwerthusiad Gofal a Thrwsio – 3 blynedd ymlaen



# cynnwys


Crynodeb Gweithredol 2

Prif ganfyddiadau 3

Beth yw Ysbyty i Gartref Iachach? 4

Prif ysbytai allweddol 5

Dibenion allweddol Ysbyty i Gartref Iachach 6

Covid-19 ac Adferiad 7

Pam fod Ysbyty i Gartref Iachach yn hollbwysig i'r GIG? 9

Pwysau cyfredol 11

Y darlun mwy: tai ac iechyd 13

Gwerthusiad Gofal a Thrwsio - 3 blynedd ymlaen 14

Meintiol 15

Ansoddol 16

Canfyddiadau allweddol 17

Cynnydd ar argymhellion blaenorol a wnaed yn 2019 29

Next for H2HH: new recommendations based on new learning: 31

H2HH Local Health Boards Profiles 35


Care & Repair Cymru

Llywodraeth Cymru Welsh Government

GIG CYMRU NHS WALES

# Crynodeb Gweithredol

## Mae Ysbyty i Gartref Iachach yn ddatrysiad i broblem.

Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda staff ysbytai, cleifion a'u teuluoedd i adnabod a datrys problemau tai ac amgylcheddol a fyddai fel arall yn atal rhyddhau o ysbyty.

Mae'n glod i ymroddiad staff Gofal a Thrwsio, yn symud o waith yn y gymuned i waith mewn lleoliadau iechyd dan bwysau mawr, y tyfodd gwasanaeth Ysbyty i Gartref Iachach o hadau bach i wasanaeth sylweddol sy'n dal i dyfu. Ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl heb reddf cyd-gynhyrchiol staff rheng flaen y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, a gydnabu botensial y cynnig. Mae'r gwerthusiad hwn yn olrhain datblygiad ac ehangiad y gwasanaeth dros y tair blynedd ddiwethaf i ddangos y gwahaniaeth cadarnhaol a wnaed i les cleifion, llif cleifion, rhyddhau cyflymach o ofal a llai o achosion gorfod mynd yn ôl i ysbyty.

Mae Ysbyty i Gartref Iachach hefyd yn ddewis strategol clir ar gyfer cynllunwyr iechyd. Mae'r gwasanaeth yn gydnaws ag uchelgais Cymru Iachach ac yn fwy diweddar Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng yn cynnwys llwybrau o fewn Rhyddhau i Wella yna Asesu y gobeithiwn fydd yn helpu Gofal a Thrwsio i gadw partneriaeth hirdymor gyda'r GIG i ddarparu'r gwasanaeth hwn.



**Chris Jones,**
Prif Weithredw

# Prif ganfyddiadau

- Ar hyn o bryd mae 17 gweithiwr achos yn gweithio mewn 17 prif ysbyty ar draws pump Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru.
- Mae'r gwasanaeth wedi ehangu i ysbytai ychwanegol bob blwyddyn, ac wedi gweld cynnydd flwyddyn-ar-flwyddyn yn nifer yr atgyfeiriadau a deilliannau gwasanaeth
- Cafodd dros 10,000 o gleifion ledled Cymru eu hatgyfeirio at y gwasanaeth ers 2019
- Mae'r gwasanaeth wedi arbed dros 62,000 o ddyddiau gwely i GIG Cymru ers 2019
- Am bob £1 a wariwyd, mae'r gwasanaeth yn arbed £8.60 i GIG Cymru drwy osgoi costau gofal rhyddhau gohiriedig yn unig
- Profodd fod y gwasanaeth wedi gostwng nifer y cleifion fu'n rhaid iddynt fynd yn ôl i ysbyty gyda chyfradd aildderbyn o 5.7% o gymharu gyda chyfartaledd y bwrdd iechyd o tua 12-15% yn lleol
- Mae'r gwasanaeth wedi sefydlu egwyddorion gwaith partneriaeth da ar draws Cymru ac mae'n wasanaeth dibynadwy hanfodol ar gyfer datrys problemau tai ac amgylcheddol a fyddai fel arall wedi gohirio trosglwyddo gofal
- Mae gan y gwasanaeth enw rhagorol ymysg staff GIG am ei gyflymder, dibynadwyedd a sgiliau datrys problemau, yn cynnwys datrys problemau tai ar gyfer rhyddhau yr un diwrnod
- Yn hollbwysig, mae'r gwasanaeth yn arbed staff amser clinigol. Cyfeiriodd llawer o'r staff GIG y gwnaethom eu cyfweld at ein gweithwyr achos Ysbyty i Gartref Iachach fel y 'ddolen' rhyngddyn nhw â chleifion, eu teuluoedd, cwmnïau allanol ac adnoddau cymunedol i arbed amser ac adnoddau staff GIG
- Mae'r gwasanaeth yn llenwi bwlch mewn darpariaeth gwasanaeth rhwng iechyd, tai a rhyddhau o ysbyty ac mae'n cynnig cefnogaeth tymor hirach tu hwnt i waith sy'n hanfodol ar gyfer rhyddhau o ysbyty i sicrhau y gall cleifion ddychwelyd gartref i fyw'n ddiogel ac yn annibynnol



# Beth yw Ysbyty i Gartref Iachach?

**Mae Ysbyty i Gartref Iachach yn gweithio allan o 17 prif ysbyty ar draws Cymru ar hyn o bryd, gan gyflogi 17 gweithiwr achos.**

**Dechreuodd y gwasanaeth fel Ysbyty i Gartref yn Gofal a Thrwsio Pen-y-bont ar Ogwr yn 2014, ac mae wedi gweithredu'n genedlaethol ers 2019.**

Fe wnaethom gyflwyno cynnig cenedlaethol ar gyfer Ysbyty i Gartref Iachach yn dilyn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddatblygu fframwaith polisi ar gyfer gofal heb ei drefnu yn haf 2018.

Gan ddefnyddio gwasanaeth Pen-y-bont ar Ogwr fel ein henghraifft o arfer gorau, gwaith prosiect gan Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych yn Ysbyty Glan Clwyd a'n cyllid gofal o Raglen Addasiadau Brys Gofal a Thrwsio, fe wnaethom gyflwyno cynnig ar gyfer gwasanaeth ehangach ar draws Cymru i Bennaeth Polisi Gofal Argyfwng a Pherfformiad Llywodraeth Cymru.

Yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus gan Lywodraeth Cymru rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2019, cafodd y gwasanaeth ei gyllido gan Lywodraeth Cymru tan fis Ebrill 2022. Yn ystod y cyfnod hwn cawsom ein cysylltu'n strategol gyda'r Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal heb ei Drefnu, gan gymryd rhan yn y grŵp cyflenwi ar gyfer dibenion monitro, cael cymeradwyaeth gan y Bwrdd a chefnogaeth swyddogion Llywodraeth Cymru gyda chyfrifoldeb am y gwaith hwn. Caiff y gwasanaeth ei ariannu ledled Cymru ar hyn o bryd drwy gyfuniad o gyllid gan y Byrddau Iechyd Lleol a Chyllid Integreiddio Rhanbarthol a chafodd gefnogaeth Uned Cyflenwi GIG Cymru yn dilyn trosglwyddo o Lywodraeth Cymru. Drwy gydol blwyddyn olaf cyllid Llywodraeth Cymru, bu Asiantaethau Gofal a Thrwsio mewn cysylltiad gyda Byrddau Iechyd Lleol i ddangos llwyddiant mawr y gwasanaeth wrth ostwng hyd arosiadau cleifion a gostwng nifer yr achosion sy'n gorfod mynd yn ôl i ysbyty ar draws Cymru.



# Prif ysbytai allweddol



**Ysbyty Glangwili**
Gofal a Thrwsio Sir Gaerfyrddin

**Ysbyty Gorseinon**
Gofal a Thrwsio Bae Gorllewinol

**Ysbyty Treforys**
Gofal a Thrwsio Bae Gorllewinol

**Ysbyty Castell-nedd Port Talbot**
Gofal a Thrwsio Bae Gorllewinol

**Ysbyty Nevill Hall**
Gofal a Thrwsio Sir Fynwy a Thorfaen

**Ysbyty Tywysog Charles**
Gofal a Thrwsio Cwm Taf

**Ysbyty Tywysog Philip**
Gofal a Thrwsio Sir Gaerfyrddin

**Ysbyty Brenhinol Morgannwg**
Gofal a Thrwsio Cwm Taf

**Ysbyty Brenhinol Gwent**
Gofal a Thrwsio Casnewydd

**Ysbyty Singleton**
Gofal a Thrwsio Bae Gorllewinol

**Ysbyty'r Faenor**
Gofal a Thrwsio Sir Fynwy a Thorfaen

**Ysbyty Llwynhelyg**
Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru

**Ysbyty Maelor Wrecsam**
Gofal a Thrwsio Gogledd Ddwyrain Cymru

**Ysbyty Glan Clwyd**
Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych

**Ysbyty Gwynedd**
Gofal a Thrwsio Gwynedd a Môn

**Ysbyty Ystrad Fawr**
Gofal a Thrwsio Blaenau Gwent a Chaerffili

Rydym hefyd yn cefnogi trefniadau rhyddhau o ysbyty ar draws y byrddau iechyd hyn a chamu-lawr mewn ystod o ysbytai cymunedol.

# Dibenion allweddol Ysbyty i Gartref Iachach

**Cefnogi staff clinigol a chleifion gyda rhyddhau cyflymach a diogel o ysbytai**

**Gwella llif cleifion drwy ysbytai**

**Gostwng nifer achosion gorfod mynd yn ôl i ysbyty**

## Model Cyflenwi Ysbyty i Gartref Iachach

- Gweithio'n agos gyda staff GIG mewn ysbytai i adnabod cleifion ar y cyfle cyntaf posibl a allai gael eu hatal rhag gadael ysbyty oherwydd problem tai neu amgylcheddol
- Addasiadau amserol i gefnogi therapyddion galwedigaethol ac adsefydlu adref i ganiatáu rhyddhau cleifion yn ddiogel
- Cefnogi staff GIG a gwella ysbryd staff drwy fod yn ffynhonnell y maent yn ei hadnabod ac yn ymddiried ynddi i gyflenwi'n gyflym ac yn hyblyg
- Mynediad i gronfeydd cyllid cyfalaf ar gyfer gwaith atgyweirio/addasu mân/canolig sydd gan bob Asiantaeth Gofal a Thrwsio neu y gallent gael mynediad iddynt, a'r Rhaglen Addasiadau Brys sy'n derbyn £2m o gyllid gan Lywodraeth Cymru
- Mynediad i amrywiaeth o incwm cenedlaethol a lleol ar gyfer atgyweiriadau argyfwng sy'n effeithio ar gartrefi oer a llaith, pibelli yn gollwng, diogelwch trydan a nwy, cartrefi gorlawn ac amgylchiadau byw cyffredinol
- Cefnogaeth gymunedol a thai hirdymor i gleifion i'w hatal rhag gorfod mynd yn ôl i ysbyty yn cynnwys drwy Wiriad Cartrefi Iach a gynhelir o fframwaith asesu safonol gan ein Gweithwyr Achos Ysbyty i Gartref Iachach arbenigol sydd ag achrediad Asesydd Dibynadwy. Mae hyn yn cynnwys cyngor ar ofal iechyd darbodus, yn cynnwys asesiad o risg cwympo gyda chleifion yn eu cartrefi
- Cyngor a gwaith ar ddiogelwch cartrefi i alluogi cleifion i wella adre drwy gysylltiadau gyda'n gwasanaeth ymarferol (tasgmon) mewnol Gofal a Thrwsio
- Cysylltiadau i wasanaethau technegol/syrfëwr proffesiynol Gofal a Thrwsio ar gyfer gweithiau mwy pan fo angen
- Incwm dyngarol ac elusennol a gyrchir ar gyfer gwaith sydd ei angen, lle'n berthnasol
- Mynediad i Gronfa Caledi Gofal a Thrwsio ar gyfer cleientiaid na all y gwaith ar eu cartrefi gael ei ariannu drwy unrhyw ffynhonnell arall
- Gwiriadau a cheisiadau am fudd-daliadau lles sy'n cynyddu incwm cleifion er mwyn cael effaith gadarnhaol ar wresogi, bwyta'n dda ac anghenion gofal parhaus
- Cefnogaeth i fynediad cleifion i grantiau tai awdurdodau lleol a gwasanaethau therapi galwedigaethol cymunedol
- Atgyfeiriad i ddarparwyr statudol a thrydydd sector lleol ar gyfer cymorth gydag anghenion gofal, unigrwydd, hawliau i'r anabl, cyngor ariannol ac yn y blaen
- Cysylltiadau gyda'n gwasanaeth Ymdopi'n Well – cymorth gwaith achos arbenigol ar gyfer cleientiaid sydd â nam ar eu golwg neu eu clyw, dementia a goroeswyr strôc. Cyflwynir hyn drwy Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, gyda'n partneriaid Cymdeithas Alzheimer Cymru, Cymdeithas Strôc Cymru, RNIB Cymru a RNID Cymru
- Cysylltiadau i'n gwasanaeth 70+ Cymru a Swyddogion Ynni Cartref ar gyfer cyngor a chefnogaeth arbenigol ar gyfer y rhai sy'n byw mewn cartrefi oer neu sydd mewn tlodi tanwydd.

# Covid-19 ac Adferiad

## Yn yr un modd â Gofal a Thrwsio yn fwy cyffredinol, roedd gwasanaeth Ysbyty i Gartref Iachach yn gweithredu'n llawn drwy gydol y pandemig.

I ddechrau cafodd staff eu symud i ffwrdd o ysbytai oherwydd diogelwch cleifion a staff, fodd bynnag fe wnaethom barhau i weithio ar waith argyfwng diogelwch cartref a rhyddhau o ysbyty, gan sicrhau y gallem liniaru unrhyw bwysau ar wasanaethau GIG rheng-flaen ac aciwt. Roedd addasiadau cartref, diwygiadau penodol, atgyweiriadau argyfwng a hygyrchedd yn broblemau hollbwysig ar gyfer rhyddhau diogel a darparu gofal yn y cartref, ac roeddem yn cynyddu galluedd ac adnoddau staff i wneud cartrefi'n ddiogel ac addas ar gyfer adferiad ac adsefydlu. Mewn gwirionedd, ehangodd y gwasanaeth yn ystod y cyfnod hwn o ran nifer yr ysbytai yr oeddem yn gweithio ynddynt a hefyd nifer yr atgyfeiriadau a gafwyd. Pan oedd y pandemig ar ei waethaf, yn seiliedig ar anghenion y GIG yn lleol, fe wnaethom hefyd ddarparu amrywiaeth o wasanaethau ychwanegol, e.e. gwasanaethau porthor dros dro, dosbarthu a chasglu offer, mynediad i wasanaethau golchfa leol a dosbarthu cyfarpar diogelu personol.

Wrth edrych i'r dyfodol, rydym wedi dysgu o'r profiad ac mae gennym ganllawiau cenedlaethol penodol i'r diwydiant ar gyfarpar diogelu personol, asesiad risg a SOP cysylltiedig â diogelwch, i osgoi unrhyw gyflyrau pandemig rhag ailymddangos. Fe wnaethom ganolbwyntio ar gadw cleifion yn ddiogel, cadw staff yn ddiogel a chadw ein contractwyr allanol yn ddiogel. Mae gennym yr arbenigedd ar gyfer gweithio gyda phobl hŷn a bregus, cadwyni cyflenwi sydd wedi sefydlu'n dda ar gyfer gwaith adeiladu a diogelwch cartrefi, cyllid cenedlaethol ar gyfer datrysiadau a chysylltiadau logistaidd a gweithredol gyda'r GIG yng Nghymru, sy'n hanfodol ar gyfer adferiad yn dilyn Covid.



# Pam fod Ysbyty i Gartref Iachach yn hollbwysig i'r GIG?

**Mae Fframwaith Cynllunio 2020-2023 y GIG yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd lleol ystyried nifer o yrwyr strategol a deddfwriaethol cefndirol. Gall Ysbyty i Gartref Iachach gynorthwyo Byrddau Iechyd Lleol i gyflawni'r dilynol:**

**Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng**
Nod 1: Cydgysylltu, cynllunio a chymorth ar gyfer poblogaethau sydd â risg uwch o fod angen gofal brys neu ofal mewn argyfwng, helpu pobl i aros yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Nod 5: Darparu'r gofal a'r ymarfer rhyddhau gorau posibl i'r claf ar ôl iddo gael ei dderbyn i'r ysbyty; a Nod 6: Dull 'gartref yn gyntaf' a lleihau'r risg o orfod mynd yn ôl i ysbyty.

Mae Ysbyty i Gartref Iachach yn hwyluso rhyddhau cyflymach a mwy diogel o ysbyty i gartrefi a gafodd eu haddasu i ganiatáu byw annibynnol a pharhau i wella a phecynnau gofal yn dilyn arhosiad ysbyty. Mae'r gwasanaeth yn helpu pobl hŷn, grŵp risg hysbys ar gyfer derbyn i ysbyty. Profwyd bod ein haddasiadau yn gostwng nifer y cleifion sy'n gorfod mynd yn ôl i ysbyty o fewn fframwaith 28-diwrnod ar gyfer derbyn am resymau tebyg.

**Mae Rhyddhau i Wella yna Asesu** yn annog staff i gymryd dull 'Gartref yn Gyntaf' ar ôl cysylltu gyda'r claf a sicrhau fod seilwaith cymunedol yn ei le.

Mae gweithwyr achos Ysbyty i Gartref Iachach yn cynnwys dolen rhwng ysbyty a gofal yn y gymuned drwy gymorth hirdymor ar gyfer problemau tai a llesiant, ac atgyfeiriad ymlaen at gymorth cymunedol. Mae ein gweithwyr achos yn trefnu'r addasiadau ymarferol sydd eu hangen i alluogi claf i wella adref.

**Caiff Model Gofal Sylfaenol Cymru** ei seilio ar system fwy ataliol, rhagweithiol a chydlynol sy'n integreiddio gwasanaethau iechyd, awdurdod lleol a sector gwirfoddol ac yn grymuso pobl.

Mae atal aildderbyn yn greiddiol i'r gwasanaeth Ysbyty i Gartref Iachach. Mae Care & Ragair Cymru ac Asiantaethau Gofal a Thrwsio yn sefydliadau dim-er-elw yn y trydydd sector gyda rhwydweithiau atgyfeirio cryf o'r sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol. Mae statws Asesydd Dibynadwy wedi gwneud ein gwasanaethau yn bwynt cyswllt hanfodol ar gyfer timau dan bwysau yn y Gwasanaethau Cymdeithasol a GIG, gan ddarparu cysylltiadau ansawdd uchel, cyflym ac adborth ar gyfer gwasanaethau Therapi Galwedigaethol na all ymweld ag eiddo i weld y sefyllfaoedd fel maent yn digwydd.

**Mae Ffyniant i Bawb** yn dangos pwysigrwydd buddsoddi mewn tai i hyrwyddo byw annibynnol.

Mae Ysbyty i Gartref Iachach yn benodol yn trin materion tai ac amgylcheddol sy'n effeithio ar allu cleifion hyn i fyw'n annibynnol a diogel adre.

Mae'r egwyddorion hyn yn allweddol i'n dull gweithredu holistig, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.



**Mae Cymru Iachach** yn cymryd ymagwedd system gyfan at iechyd a gofal cymdeithasol, gyda gwasanaethau llyfn yn cael eu darparu mor agos adre ag sydd modd.

Gweithwyr achos Ysbyty i Gartref Iachach yw'r cyswllt rhwng y claf, eu cartref a chymorth yn y gymuned. Drwy gwblhau addasiadau, atgyweiriadau argyfwng a chefnogi materion lles cymdeithasol, mae ein gwasanaethau yn rhoi dull holistig y mae egwyddorion Cymru Iachach wedi eu seilio arnynt.

Gweithiwn o fewn fframwaith Gofal Iechyd Darbodus, gan ddefnyddio model cydgynhyrchu sy'n rhoi'r claf a'r hyn sy'n bwysig iddynt wrth galon ein gwasanaeth.

Mae gwasanaeth Ysbyty i Gartref Iachach yn galluogi gweithwyr proffesiynol y GIG i ganolbwyntio ar ostwng dibyniaeth a chefnogi annibyniaeth pobl yn eu cartrefi eu hunain.

Mae popeth yn bwydo mewn i sbardun deddfwriaethol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a adeiladwyd ar egwyddorion creiddiol llais a rheolaeth, atal ac ymyriad cynnar, llesiant, cyd-gynhyrchu a gweithio aml-asiantaeth.

# Pwysau cyfredol

## Mae cleifion yn aros mewn ysbyty yng Nghymru yn hirach nag mewn unrhyw wlad arall yn y Deyrnas Unedig.

Dengys data gan Ymddiriedolaeth Nuffield, elusen ymchwil iechyd annibynnol a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2022, fod y rhan fwyaf o gleifion yng Nghymru yn aros yn yr ysbyty am 60% yn hirach ar gyfartaledd na chleifion yn Lloegr, gan aros am gyfnod cyfartalog o saith diwrnod yng Nghymru a phedwar diwrnod yn Lloegr. Mae hyn yn golygu y bydd gwely yn Lloegr yn gweld tua 91 o gleifion y flwyddyn o gymharu â 52 yng Nghymru.

pwysau ar y GIG. Ym mis Mehefin 2022 roedd ychydig dros draean o'r cleifion wedi treulio mwy na phedair awr mewn Adrannau Argyfwng ledled Cymru, gan fod yn gyfanswm o 58,876 o gleifion.

Yn gynnar yn 2022, lansiodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ymchwiliad i ryddhau o ysbyty a'i effaith ar lif cleifion, gan dderbyn 45 ymateb gan amrywiaeth o unigolion a sefydliadau yn gweithio o fewn y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol. Dangosodd yr adroddiad, ynghyd ag effaith Covid-19 yn arwain at newid dull gweithredu ar draws y system at ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol, bod heriau o amgylch pecynnau gofal, cyfleusterau gwely camu-lawr, problemau tai a gweithio partneriaeth.

**Dywedodd y Coleg Nyrsio Brenhinol:**


> *'Cydnabu ymgyrch 'Codi, Gwisgo, Symud', fod cleifion dros 80 oed sy'n aros yn y gwely yn colli hyd at 10% o fás eu cyhyrau mewn dim ond 10 diwrnod. Nododd yr ymgyrch y gall hyd at 50% o gleifion ddioddef o anymataliaeth o fewn 24 awr o gael eu derbyn i ysbyty a bod llai na 50% o gleifion yn gwella'n llawn i'w lefelau cyn mynd i ysbyty o fewn 1 flwyddyn'.*

Mae arosiadau hirach i gleifion yn yr ysbyty yn golygu mai nifer gyfyngedig o welyau sydd ar gael i gwblhau gofal a drefnwyd. Ym mis Mehefin 2022 roedd 732,241 o gleifion yng Nghymru ar restri aros i ddechrau triniaeth a ddisgrifiwyd yn aml fel un o bob pump o bobl Cymru ar restr aros, er y gall rhai pobl fod ar fwy nag un restr aros. Mae hyn yn gynnydd o 60.2% ar nifer y cleifion sy'n aros am driniaeth yng Nghymru ym mis Mawrth 2020. O'r ffigur hwn, roedd 36% (263,781) wedi bod yn aros am fwy na 36 wythnos. Dim ond 6.2% oedd y ffigur hwn ym mis Mawrth 2020.

Mae diffyg lleoedd gwely hefyd wedi effeithio ar berfformiad Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a pherfformiad Adrannau Argyfwng gan fod llai o welyau ar gael yn golygu arosiadau hirach cyn derbyn i ysbyty. Cafodd rhai enghreifftiau o ambiwlansiau yn aros tu allan i Adrannau Argyfwng sylw ar y cyfryngau cenedlaethol yng Nghymru wrth i'r cyhoedd ddod yn gynyddol ymwybodol o'r

**O'n profiad ein hunain, mae'r gwasanaeth yn gweld achosion cynyddol gymhleth. Cafodd problemau tai, iechyd a chymdeithasol eu gadael, gan olygu erbyn i gleifion gael eu derbyn i ysbyty, fod problemau wedi crynhoi gan fod angen gwaith a chymorth ychwanegol i gael cleifion adre.**

amlwg wedi dioddef strôc ond oedd yn rhy ofnus i gysylltu â'u meddyg teulu neu ofal argyfwng rhag ofn eu bod yn dal Covid. Pryder y gweithiwr achos oedd os yw hyn yn digwydd ar gyfer cyflyrau aciwt fel strôc, yna ei bod yn debygol fod llawer o gyflyrau eraill cronig a thymor hirach wedi mynd heb eu hadrodd, sydd yn ei dro wedi arwain at i fwy o gleifion fod yn aros yn yr ysbyty am gyfnodau hirach, gan greu pwysau ar y system gofal iechyd.



# Y darlun mwy: tai ac iechyd



## gwasg glinigol ysbytai


- 18% o gartrefi Cymru yn achosi risg annerbyniol i iechyd
- 83% o bobl hŷn yn byw yn eu cartref eu hunain
- Pobl hŷn ymysg y rhai sydd yn y risg mwyaf o dai gwael
- Cartrefi oer a llaith yn cynnwys clefydau cylchrediad, anadlol a chardiofasgwlaidd
- Cost triniaethau yn £96 miliwn y flwyddyn yn dilyn damweiniau neu salwch yn gysylltiedig â thai gwael

## pwysau drwy'r system

- Bydd tua 278,000 o bobl hŷn yn cwympo yn eu cartrefi eu hunain
- Bydd tua 139,000 o bobl hŷn yn cwympo fwy nag unwaith yn eu cartref
- O'r cwympiadau hyn, bydd tua 8,100 yn arwain at anaf difrifol
- Mae tua 3,000 o bobl hŷn yn torri clun bob blwyddyn
- Mae tua 1,500 o bobl hŷn heb fod wedi adennill eu hannibyniaeth mewn 12 mis ar ôl cwympo



# Gwerthusiad Gofal a Thrwsio - 3 blynedd ymlaen



## Y dulliau ar gyfer yr ymchwil hwn oedd:

- Ymchwil pen desg i sefydlu os oedd y broblem dechreuol yr aeth Ysbyty i Gartref Iachach ati i'w lliniaru yn parhau yr un fath, yn well, neu'n waeth
- Dadansoddiad meintiol o allbynnau rhifyddol y gwasanaeth dros y tair blynedd
- Dadansoddiad cost-budd ac adenilliad ar fuddsoddiad
- Astudiaeth ansoddol, yn seiliedig ar gyfweliadau gydag amrywiaeth o staff GIG ar draws pob un o'r pump bwrdd iechyd y mae'r gwasanaeth yn gweithredu ynddynt er mwyn deall eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth
- Cyfweliadau gyda gweithwyr achos Ysbyty i Gartref Iachach yn canolbwyntio ar eu profiadau a heriau dros y tair blynedd ddiwethaf
- Cyfweliadau ffôn gyda'n partneriaid yn defnyddio graddfa cynt ac wedyn i fesur effaith yr ymyriad


## Prif ganfyddiadau - "dyw hi byth yn na"

- Mae'r gwasanaeth wedi sefydlu'n well dros gyfnod gan weithio mewn gwir bartneriaeth gyda staff GIG. Cafodd cysylltiadau eu hadeiladu ar ymddiriedaeth a chyfathrebu da rhwng ein gweithwyr achos a'r GIG, gyda rhai gweithwyr achos yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd staff rheolaidd ar ryddhau gohiriedig
- Soniodd staff am gyflymder y gwasanaeth a gwybodaeth a sgiliau datrys problem ein gweithwyr achos fel eu cymhellion allweddol dros ddibynnu ar y gwasanaeth
- Mae ein gwerth am arian ac arbedion cost wedi cynyddu flwyddyn ar flwyddyn, gyda chost uned isel yn rhoi gwerth effaith uchel fesul claf GIG. Dros y tair blynedd ddiwethaf amcangyfrifir i ni arbed o leiaf £13.6m i GIG Cymru drwy ostwng rhyddhau gohiriedig
- Mae ein gwaith wedi gostwng nifer y cleifion y bu'n rhaid iddynt fynd yn ôl i ysbyty, gydag astudiaeth beilot mewn un bwrdd iechyd yn dangos bod ymyriad gan Ysbyty i Gartref Iachach wedi arwain at gyfradd dychwelyd i ysbyty o 5.7%, o gymharu â chyfartaledd ceidwadol o 12.5%.


# Meintiol

## Blwyddyn Ariannol Lawn


2019 - 20 | 2020 - 21 | 2021 - 22





**Nifer cleifion a gafodd help i adael yr ysbyty yn gyflymach**





**Nifer y gwiriadau Cartref Iach a gynhaliwyd**





**Nifer addasiadau a gwaith gwella cartrefi i sicrhau rhyddhau o ysbyty**




**Gwerth gwaith mewn £ miliwn**




**Budd-daliadau prawf modd a hawliwyd mewn £**




**Nifer dyddiau gwely GIG a arbedwyd**

- Cafodd dros 10,000 o gleifion help i adael ysbyty yn gyflymach dros y tair blynedd ddiwethaf, gyda nifer y cleifion a gafodd help wedi cynyddu bob blwyddyn
- Cwblhawyd 7,110 gwiriad Cartrefi Iach i sicrhau diogelwch tymor hirach mewn cartrefi a gostwng nifer y cleifion sy'n gorfod mynd yn ôl i ysbyty
- Cwblhawyd 16,653 o weithiau addasu a gwella cartrefi i helpi cyflymu rhyddhau diogel o ysbyty
- Sicrhau dros £4.14m mewn buddion prawf modd, gan gynyddu incwm blynyddol cleifion cyfartalog gan £4367
- Rydym yn gostwng arhosiad cleifion gan chwe diwrnod ar gyfartaledd
- Rhwng mis Ebrill – mis Mawrth 2022 roedd y gost uned gyfartalog fesul cleient a gafodd help yn £156.68
- Fe wnaethom gyrchu cyfartaledd o £231 mewn cyfalaf ar gyfer pob swydd dros y tair blynedd ddiwethaf
- Dros y tair blynedd ddiweddaf amcangyfrifir fod y gwasanaeth wedi arbed o leiaf £13.6 miliwn i GIG Cymru mewn arbed rhyddhau gohiriedig yn unig
- Arbed £8.60 am bob £1 a wariwyd ar ryddhau gohiriedig yn unig
- Cyfradd aildderbyn cyfartalog o 5.7% o gymharu â chyfartaledd bwrdd iechyd o rhwng 12-15%

Deallwn mai anaml mae gwelyau yn wag, ond yn hytrach maent ar gael ar gyfer y claf nesaf. Mae arbedion cost tybiannol o ryddhau o ysbyty felly yn rhoi potensial buddsoddiad wedi ei ailgyfeirio. Nid yw ein ffigur arbedion cost yn cynnwys y cleifion y gwnaethom eu hatal rhag gorfod mynd yn ôl i ysbyty, yr amser staff clinigol y gwnaethom ei arbed a'r pecynnau gofal y gwnaethom eu galluogi, y teuluoedd y rhoddwyd sicrwydd iddynt na'r cymorth hirdymor a roddwn i gleifion yn eu cartrefi.

# Ansoddol

**Bu Gofal a Thrwsio yn cyfweld staff o bob bwrdd iechyd yr oedd gwasanaeth Ysbyty i Gartref Iachach yn gweithredu ynddo, yn ogystal â'r holl weithwyr achos mae'r gwasanaeth yn eu cyflogi.**

Roeddem eisiau targedu ein cyfweliadau ar y staff rheng-flaen sy'n rhyngweithio gyda'r gwasanaeth yn ddyddiol i ganfod sut a pham eu bod yn defnyddio'r gwasanaeth wrth ochr eu gwaith a chlywed am unrhyw rwystredigaeth neu ffyrdd y gellid gwella'r gwasanaeth. Diolchwn iddynt am eu hamser, cymorth a chefnogaeth werthfawr.

Yn yr un modd ag mae rhyddhau o ysbyty ei hunan yn weithrediad aml-agweddog sydd angen i lawer o rannau symudol ddod ynghyd ar yr un pryd, roedd yn heriol dadansoddi y ffactorau rhyng-gysylltiedig eang sy'n ffurfio gwasanaeth Ysbyty i Gartref Iachach. Mae'r canfyddiadau allweddol isod yn gyd-ddibynnol. Dros gyfnod, datblygodd cysylltiadau a adeiladwyd ar gyfathrebu da, ymddiriedaeth a dealltwriaeth o'r gwasanaeth – sy'n caniatáu gweithio partneriaeth mwy creadigol, datrys problemau a gwell deilliannau i staff a chleifion.



# Canfyddiadau allweddol

## 1. Helpu i lacio pwysau ysbyty drwy gyflymu rhyddhau diogel – "eu hagwedd gallu gwneud, dylid ei roi mewn potel fel y gall pobl eraill ei gael"

Mae tai yn rhan hanfodol o'r pos mewn galluogi pobl i ddychwelyd adre ar yr adeg cywir, gyda'r gofal a'r cymorth cywir yn ei le, gyda'r amgylchedd cywir yn y cartref i gefnogi adferiad. Mae Ysbyty i Gartref Iachach yn datrys problemau tai sy'n hanfodol ar gyfer rhyddhau o fewn dau ddiwrnod gwaith, neu'r un diwrnod os yn bosibl. Mae cyflymder a dibynadwyedd y gwasanaeth yn un o'i lwyddiannau allweddol a soniwyd yn ffafriol amdano drwy gydol y gwerthusiad.

> "Roedd ganddon ni aelod newydd o staff yn ddiweddar oedd wedi symud o Loegr a fedrai hi ddim credu fod gennym wasanaeth a fyddai'n mynd mas yr un diwrnod i osod seff allwedd ... dyna pam ein bod yn ei ychwanegu at ein cyflwyniad i'r tîm oherwydd ei fod yn llwybr a ddefnyddiwn yn aml ar gyfer ein hachosion
>
> **Bethan Williams,**
> Gweithiwr Cymdeithasol yn y Cyd-dîm Rhyddhau
> **Ysbyty Llwynhelyg**

> "Pwysau llif yn yr ysbyty. Mae unrhyw fath o oedi yn hyd yr arhosiad, mae'n crynhoi ac yn rhwystro'r holl system ... mae cael yr addasiadau hyn yn gostwng yr angen am y gwasanaeth, mae'n cadw pobl yn annibynnol yn eu prif amgylchedd.
>
> **Bethan Hughes,**
> Arbenigydd Clinigol Therapi Galwedigaethol
> **Ysbyty Gwynedd**

O safbwynt y GIG, mae wardiau prysur yn cynnig cyfle sensitif o ran amser i drosglwyddo cleifion sy'n feddygol ffit ar gyfer eu rhyddhau cyn eu bod mewn risg y bydd eu cyflwr yn gwaethygu. Gyda phrofiad mae ein gweithwyr achos yn awr yn gwneud penderfyniadau ar flaenoriaethu cleifion, gyda rhai asiantaethau yn brysbennu gwaith yn rhai hanfodol a heb fod yn hanfodol ar gyfer rhyddhau o ysbyty ac yn rhai brys neu heb fod yn frys yn dibynnu ar hyd disgwyliedig yr arhosiad. Mae hyn yn helpu i reoli llwyth gwaith a disgwyliadau, ac mae'n bosibl diolch i ddialog agored a phartneriaeth rhwng staff a gweithwyr achos y GIG.

> "Mae'r gweithiwr achos yn gwybod y gall helpu i flaenoriaethu, mae'n gwybod fod gennym un claf a fedrai fod yn mynd adre yr wythnos nesaf, ond bod rhywun ar y rhestr na fydd angen iddynt fynd adref am chwech wythnos ... Rwy'n credu ei fod yn ymwneud â thrafod wyneb yn wyneb gyda phobl yn hytrach nag anfon e-byst neu alwadau ffôn yn mynd o amgylch mewn cylchoedd gyda gwahanol bobl."
>
> **Lynne Driscoll,**
> Matron Safle
> **Ysbyty Castell-nedd Port Talbot**

Yn yr un modd â holl waith Gofal a Thrwsio, cafodd y gwasanaeth ei dargedu at bobl hŷn sydd mewn mwy o risg o orfod mynd i ysbyty am ofal heb ei drefnu. Gall cleifion o fewn y demograffig hwn fod angen pecyn o ofal cymdeithasol i gefnogi byw adre. Mae gan y gwasanaeth rôl mewn cefnogi rhyddhau sydd angen pecynnau gofal drwy sicrhau fod cartrefi yn hygyrch ar gyfer gweithwyr gofal, gan sicrhau nad yw pecynnau gofal yn methu ar y funud olaf oherwydd bod problem tai yn arwain at ohirio rhyddhau:

> "Mae glanweithdra a glanhau dwfn yn enghraifft dda. Mae gennym lawer iawn o gleifion na fedrwn eu cael allan oherwydd na fydd gofalwyr yn gweithio yn y cartrefi hynny yn y cyflwr hwnnw, ac mae hynny wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i gynllunio rhyddhau a chael pobl allan o'r ysbyty yn gyflymach"
>
> **Charlotte Warner,**
> Therapydd Galwedigaethol Band 7, Tîm Meddygol Aciwt
> **Ysbyty Tywysog Charles**

> "Mae gosod seff goriadau yn bwysig iawn. Mae'n rhywbeth yr oeddem yn cael trafferth mawr gydag ef o'r blaen. Ac yn yr achosion hynny gall fod yn hanfodol ar gyfer rhyddhau oherwydd y gall dechrau pecyn gofal fod yn ddibynnol ar gael mynediad i gartref."
>
> **Bethan Hughes,**
> Arbenigydd Clinigol Therapi Galwedigaethol
> **Ysbyty Gwynedd**

> "Bu rhai achosion lle'r oedd gofalwyr yn gwrthod mynd mewn i gartref rhywun i roi gofal oherwydd problemau celcio, risgiau i'r gofalwyr, rheoli haint. Felly mae cael y dyfynbris glanhau a dyfynbrisiau clirio wedi gwneud y broses yn llawer rhwyddach oherwydd fod gweithiwr achos Ysbyty i Gartref Iachach wedi cydlynu ochr hynny pethau."
>
> **Bethan Williams,**
> Gweithiwr Cymdeithasol yn y Cyd-dîm Rhyddhau
> **Ysbyty Llwynhelyg**

Profodd ein dysgu o'r gwerthusiad sut mae'r gwasanaeth yn parhau i gefnogi'r broses cynllunio rhyddhau. Mae hyblygrwydd gweithwyr achos a'r adnoddau sydd ar gael drwy gyfalaf a thasgmyn y Rhaglen Addasiadau Brys yn golygu fod y gwasanaeth yn ystwyth ac yn medru ymateb mewn gwaith mawr hanfodol ar gyfer rhyddhau a hefydd addasiadau bach pan fo angen brys.

.Roedd y rhannau oedd yn ymddangos yn lleiaf mewn rhyddhau o ysbyty tebyg i symud dodrefn, canfod offer cymorth, cyflenwad nwyddau gwyn a mynediad i dai, yn aml yn cyflwyno rhai o'r problemau mwyaf heriol y gallai ein gweithwyr achos gynorthwyo gyda nhw.

Teimlai'r staff gweithredol y gwnaethom gyfweld â nhw oedd yn gweithio ar ben agosaf i'r olaf o'r broses rhyddhau bod y gwasanaeth yn un hanfodol ar gyfer datrys y pethau bach olaf hynny, lle fel arall ni fedrid diwallu anghenion cleifion gan olygu rhyddhau gohiriedig.

> "Rydyn ni wedi cael problemau gyda rhai cleifion a fedrwn ni ddim meddwl sut byddwn ni'n datrys hyn. Ond mae cael Cath i mewn wedi golygu fod person arall i ddatrys rhai o'r problemau .. mae bob amser yn dweud wrthym am ei adael iddi hi"
>
> **Rachel King,**
> Therapydd Galwedigaethol
> **Ysbyty Ystrad Fawr**

Cyfeiriodd staff at ddibynnu ar wybodaeth ac arbenigedd ein gweithwyr achos o'r cymorth sydd ar gael gennym ni ac yn y gymuned i helpu datrys problemau bach a fyddai fel arall yn cymryd amser i'w hymchwilio, cael adnoddau ar eu cyfer a'u datrys.

## 2. Gwasanaeth annatod a hygyrchedd

I ddiogelu staff a chleifion, dechreuodd y rhan fwyaf o'n gweithwyr achos weithio o bell yn ystod y pandemig. Roedd hyn yn cynnig heriau a chyfleoedd newydd. Dechreuodd rhai aelodau staff gymryd rhan mewn cyfarfodydd ward a thîm rhithiol, a derbyniwyd atgyfeiriadau dros y ffôn a thrwy e-bost.

Mae presenoldeb nôl yn yr ysbyty yn awr yn amrywio ar draws Cymru, gyda rhai staff yn bresennol mewn hybiau rhyddhau penodol nifer o ddyddiau yr wythnos, rhai yn yr ysbyty bob dydd a rhai ar sail ad hoc i gysylltu gyda staff GIG a derbyn atgyfeiriadau. Cawsom nad oedd unrhyw batrwm pendant ledled Cymru ac roedd hyn yn benodol i safle yn hytrach na bod yn seiliedig ar fwrdd iechyd.

Roedd y rhan fwyaf o weithwyr achos yn ymwneud â rhyw fath o rownd wardiau rhithiol neu wyneb yn wyneb neu gyfarfodydd cynllunio, gyda'r gweithwyr achos yn cael eu hystyried fel adnodd ac yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth yn y mannau hynny lle'r oedd mwyaf eu hangen. Roedd hanfodion y cyfarfodydd hyn yn naturiol yn amrywio rhwng ysbytai gyda gwahanol ffyrdd o weithiau, pwysau a pholisïau.

Integreiddio drwy gyfarfodydd tîm rhithiol i wrthbwyso llai o bresenoldeb ysbyty:

> "Mae gweithiwr achos Ysbyty i Gartref Iachach yn rhan o'n cyfarfodydd clinigol bob wythnos, ac yna byddwn yn trafod unrhyw rwystrau sydd i gleifion fynd gartref, sydd yn eithaf aml yn llawer o broblemau tai, p'un ai glanhau neu ganllawiau ac yn y blaen"
>
> **Lynne Driscoll,**
> Matron Safle
> **Ysbyty Castell-nedd Port Talbot**

Integreiddio drwy lwybrau atgyfeirio penodol i wrthbwyso presenoldeb ysbyty.

> "Mae'r gwasanaeth yn rhan o'n hasesiad dechreuol fel llwybr ymlaen, dyna faint ydyn ni'n ei ddefnyddio. Ac mae mewn gwirionedd yn rhan o tîm. Pan ddechreuais yn y swydd, cafodd ei gyflwyno i fi fel gwasanaeth a ddefnyddiwn ar gyfer cleifion i gefnogi rhyddhau"
>
> **Olivia Newton-Hale,**
> Therapydd Galwedigaethol,
> Tîm Llawdriniaeth Feddygol
> **Ysbyty Gwynedd**

Presenoldeb wyneb yn wyneb yn y Cyd-Hyb Rhyddhau:

> "Pe byddech chi'n dod draw a chwrdd â'r tîm fyddech chi ddim yn gwybod mewn gwirionedd ei bod yn drydydd parti, ac mae hynny'n dda i'r gweithiwr achos Ysbyty i Gartref Iachach ac i ninnau. I gael y mynediad hwnnw oherwydd fod ganddi gymaint mwy o wybodaeth, ond mae hefyd yn annibynnol o'r agwedd iechyd a gofal cymdeithasol, mae gennych yr agwedd honno o fod yn seiliedig yn yr ysbyty ond yn i'r gymuned yn llawer amlach"
>
> **Bethan Williams,**
> Gweithiwr Cymdeithasol yn y Cyd-Dîm Rhyddhau
> **Ysbyty Llwynhelyg**

Yn ein gwerthusiad blaenorol, daethom i'r casgliad fod arfer gorau ymysg ein gweithwyr achos yn dod gan y rhai sy'n ymwneud yn llawn â rowndiau ward, cyfarfodydd cynllunio rhyddhau ac a gafodd ddesg o fewn yr ysbyty ymysg cynnwys arall oedd yn golygu gwell gweithio partneriaeth a fedrai wirioneddol dargedu ymyriad cynharach. Dywedwyd 'lle mae Ysbyty o Gartref Iachach wedi ei integreiddio orau, mae'n wasanaeth hanfodol a rhwydd ei adnabod'. Gan wybod fod ein staff yn awr yn gweithio mewn cymysgedd o ffyrdd o amgylch cyfyngiadau ysbyty, roeddem eisiau profi os oedd hwn yn dal yn wasanaeth hanfodol ac os oedd llai o bresenoldeb mewn ysbytai mewn rhai ardaloedd wedi effeithio ar i ba raddau yr oedd ein gweithwyr achos yn teimlo wedi eu cynnwys a pha mor hygyrch oeddent i staff.

Rydym yn dal wedi canfod fod y gwasanaeth yn un hanfodol. Caiff hyn ei yrru gan wydnwch gweithwyr achos, sydd wedi mynd ati'n rhagweithiol i geisio atgyfeiriadau yn ystod cyfnodau ymaith o ysbytai ac wedi parhau i 'ddangos wyneb' ar-lein ac wyneb yn wyneb i atgoffa staff GIG am y gwasanaeth a'i alluoedd. Mewn ysbytai sydd newydd ymuno, mae gweithwyr achos wedi darparu taflenni, posteri a chyflwyniadau i staff i esbonio'r gwasanaeth er mwyn ennill ymddiriedaeth a helpu i gyfathrebu'r gwasanaeth.



## 3. Gweithwyr achos hygyrch – “dydyn ni byth yn dweud na”

Mae cyfathrebu yn allweddol mewn ysbyty prysur. Dros amser daeth y gwasanaeth yn un dibynadwy a hanfodol ar gyfer staff. Mae cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau yn profi bod hyn yn wir ond pan ofynnwyd pam eu bod yn atgyfeirio at y gwasanaeth, cyfeiriodd staff dro ar ôl tro at argaeledd ac ymatebolrwydd gweithwyr achos gan olygu y gellid dibynnu ar y gwasanaeth i sicrhau fod prosesau rhyddhau yn fwy llyfn:

> Rwy’n credu fod gennym gyfathrebu gwirioneddol dda erbyn hyn. Mae hynny’n ddefnyddiol i ni, mae’n golygu fod ein math ni o fomentwm a chynllunio rhyddhau mor syml ag sydd modd. Ac rwy’n credu fod cyfathrebu yn allweddol. Mae’n hyfryd cael y sgyrsiau dwy-ffordd hynny fel y gwyddom yn union beth sy’n digwydd. A gallwn fwydo’n ôl i’r bwrdd. Cawsom bob math o gwestiynau drwy’r amser, chi’n gwybod, pryd y caiff pethau eu gwneud, offer yn mynd i mewn ac yn y blaen. Felly rwy’n credu fod cael y gweithiwr achos Ysbyty i Gartref Iachach yno fel pwynt cyswllt a chyngor a chadw’r momentwm yn wirioneddol allweddol”
>
> **Catherine Williams,**
> Therapydd Galwedigaethol
> **Ysbyty Ystrad Fawr**

Ers symud i weithio hybrid, gwelsom fod hygyrchedd gweithwyr achos naill ai wedi parhau yr un fath neu wedi gwella, gyda llwybrau atgyfeirio ffôn neu e-bost newydd yn arbed amser. Mae presenoldeb yn yr ysbyty yn dal i fod yn hanfodol i hysbysu staff am y gwasanaeth, meithrin perthynas gyda staff a chleifion, trafod achosion penodol a llesiant tîm, ond nad yw’n hanfodol at dderbyn atgyfeiriadau.

> “Mae ei rhif ffôn gen i. Mae’n wirioneddol dda ar negeseuon e-bost ac ar y ffôn a bydd yn ein ffonio’n syth i frysbennu atgyfeiriad hefyd. Felly rydw i’n meddwl ei bod y person yna sy’n gwybod beth sydd angen, yn hytrach na’r swyddfa gyffredinol i’w frysbennu ei hunain. Mae’n debyg fod ganddi well golwg ar yr angen aciwt neu’r hyn sydd angen iddo fod yn hanfodol ar gyfer rhyddhau hefyd”
>
> **Zoe Hall,**
> Therapydd Galwedigaethol
> **Ysbyty Eryri**

> “O’r blaen roedd staff y GIG yn arfer gorfod llenwi’r atgyfeiriadau tair tudalen hynny a’u hanfon i’r swyddfa i gael y gwaith wedi’i wneud. Ond maent wrth eu bodd nawr y gallant fy nal yn y coridor, gallant ein ffonio a’n gweld ar y ward a dweud ‘O, a dweud y gwir, mae Mrs Jones yn y gwely yna angen ..” felly cafodd y broses atgyfeirio ei symleiddio i ddim ond un ddalen o bapur neu ddim ond un galwad ffôn. Mae angen iddynt roi mân fanylion i ni a gallwn fynd ar y ward a chael y gweddill ein hunain. Felly yn nhermau hynny mae wirioneddol wedi helpu staff yr ysbyty gan arbed amser iddyn nhw”
>
> **Meinir Woodgates,**
> Gweithiwr Achos Ysbyty i Gartref Iachach gyda Gofal a Thrwsio Pen-y-bont ar Ogwr, yn gweithio yn Ysbyty Tywysog Cymru

Er bod gweithio hybrid wedi gwella hyblygrwydd a symleiddio’r broses atgyfeirio ar gyfer staff GIG, mae’n rhaid i ni gydnabod sgil-effeithiau posibl hyn ar gleifion nac ydynt nawr efallai yn gweld y gweithiwr achos cyn eu rhyddhau o ysbyty. Eto, mae hyn yn amrywio yn ôl achosion unigol, ond mae tueddiad cyffredinol yn dangos yn gyffredinol fod yr amser cyswllt gyda chleifion mewn rhai ysbytai cyn rhyddhau wedi gostwng. Mae staff wedi datblygu sgiliau i roi blaenoriaeth i amser cyswllt gyda chleifion i’r rhai a all fod angen cymorth ychwanegol yn dros gyfnod hirach yn eu cartrefi.



## 4. Gweithio partneriaeth i arbed amser - maent yn cydlynu'r anghydlynus, yr olew yn y peiriant

Roedd ethos partneriaeth y gwasanaeth yn amlwg yn y gwerthusiad. Cyfeiriodd llawer o'r staff GIG y gwnaethom eu cyfweld at ein gweithwyr achos Ysbyty i Gartref Iachach fel y 'ddolen' rhyngddynt eu hunain a chleifion, eu teuluoedd, cwmnïau allanol ac adnoddau cymunedol. Cyfeiriodd y staff at faint o amser mae gweithwyr achos wedi ei arbed drwy gymryd y rôl bwysig yma.

"Un o'r pethau gorau a gawsom mewn gwirionedd yw bod gweithwyr achos Ysbyty i Gartref Iachach yn ymweld â'r cartrefi weithiau ac yn tynnu lluniau, a bu hynny'n gymorth mawr i ni yn yr ysbyty ... yna gallwn ychwanegu hynny at ein hasesiadau yma."

**Rachel King,**
Therapydd Galwedigaethol
**Ysbyty Ystrad Fawr**

"Rydym ni'n dibynnu llawer ar eu sgiliau hefyd, gan wybod y math o waliau y gellir gosod rheiliau arnynt oherwydd dim ond ar yr hyn mae'r claf yr ydyn ni'n mynd drwyddo lawer o amser. Ac os nad ydyn nhw'n gwybod pa mor gryf yw eu waliau – mae cryn nifer o ffactorau. Mae staff technegol Gofal a Thrwsio yn fedrus iawn, rydyn ni'n dibynnu llawer arnyn nhw. Mae'n nhw'n mynd allan y rhan fwyaf o'r amser a dydyn ni byth hyd yn oed yn gweld y cartrefi."

**Olivia Newton-Hale,**
OTherapydd Galwedigaethol, Tîm Llawfeddygaeth Feddygol
**Ysbyty Gwynedd**

"Bydd gweithiwr achos Ysbyty i Gartref Iachach yn dweud y gall edrych ar hynny pan fydd yn mynd allan a chysylltu gyda fi. Felly mae hynny wedi gwneud gwahaniaeth enfawr, nid dim ond gorfod mynd allan a gadael y wardiau. Mae hynny ynddo ei hyn yn cymryd llawer iawn o amser, nid dim ond yn yr amser teithio, ac yna eich dogfennau. Felly mae'n arbed llawer iawn o amser i ni. Ac yn wir, gallwn edrych ar bethau nad ydym o reidrwydd yn meddwl amdanynt hefyd. Rwy'n credu ei fod yn cael ei weld o safbwynt gwahanol a meddwl am wahanol ffyrdd y gallwn wneud pethau a'u datrys na fyddem ni yn medru eu gwneud. Enghraifft dda o hyn yw pethau i'w wneud gyda glanweithdra wrth lanhau dwfn mewn cartrefi".

**Charlotte Warner,**
Therapydd Galwedigaethol Band 7, Tîm Meddygol, Aciwt
**Ysbyty Tywysog Charles**

"Rydw i'n credu y byddech angen dau Therapydd Galwedigaethol ar y safle i wneud y gwaith y mae'r gweithiwr achos Ysbyty i Gartref Iachach yn ei wneud mewn galwadau ffôn a gwneud ymweliadau a dogfennau."

**Tracy Daniel,**
Arweinydd Tîm Band 7 Orthopaedeg
**Princess Charles Hospital**

Lle mae Ysbyty i Gartref Iachach yn gweithio orau, mae ein staff wedi profi yn union pa mor ddefnyddiol ydynt wrth alluogi staff ysbyty prysur a dan bwysau i fynd ymlaen gyda'u gwaith a llenwi'r bylchau na allan nhw neu ddarparwyr cymdeithasol eu darparu. Mae gan y gwasanaeth rôl hollbwysig wrth drefnu, datrys problemau, cyllid a chwblhau gwaith atgyweirio ac addasu tai sy'n hanfodol ar gyfer rhyddhau o ysbyty a dros amser mae wedi ennill ymddiriedaeth staff ysbyty y gallwn wneud hyn yn gyflym, i safon uchel ac yn ddibynadwy.



"Fel therapydd galwedigaethol byddem yn treulio llawer o amser yn ceisio hwyluso y mân addasiadau, seffau goriadau a cheisio dod o hyd i grantiau a phethau ar gyfer glanhau cartrefi, a fyddai'n golygu y byddai'n rhaid i ni adael o'r ward i wneud asesiadau adsefydlu ein hunain. Felly os unrhyw beth, rydych yn ein galluogi i wneud ein swydd i safon well gan eu cysylltu gyda chi, dim ond am ffenestr fach o'n diwrnod gwaith, a gwybod y caiff hynny ei ddatrys yn y cefndir a'n bod yn cael yr holl ddiweddariadau hynny wrth fynd ymlaen. Byddai fy swydd i yn ymwneud ag ochr addasu pethau ac olrhain pethau a byddai cleifion yn gorfod aros y hirach yn yr ysbyty oherwydd hynny. Byddai rhyddhau gohiriedig a byddai pobl yn gorfod mynd yn ôl i'r ysbyty oherwydd hynny."

**Zoe Hall,**
Therapydd Galwedigaethol
**Ysbyty Eryri**

## 5. Cynyddu annibyniaeth i'r eithaf a gostwng nifer y cleifion sy'n gorfod mynd yn ôl i ysbyty drwy gefnogaeth hirdymor ychwanegol ar gyfer cleifion - "Mae bron fel rhwyd ddiogelwch, gyda chyswllt gyda gwasanaeth"

Mae byw annibynnol adre mewn tai heb fod yn ffit i fyw ynddo ar gyfer pobl hŷn ar draws Cymru yn aml yn golygu pryder, risgiau damweiniau tebyg i lithro a baglu, a salwch a achosir gan amgylchedd oer a llaith. O safbwynt GIG, mae gwaith a atgyfeirir i'r cynllun Ysbyty i Gartref Iachach i sicrhau rhyddhau diogel o ysbyty yn aml yn fach, wedi ei dargedu gyda'r nod o gynorthwyo gyda phroblem symudedd neilltuol a ddynodir yn yr ysbyty wrth erchwyn y gwely. Caiff ein Gwiriad Cartrefi Iachach ei wneud gan ein gweithwyr achos fel rhan o'r cynnig gwasanaeth Ysbyty i Gartref Iachach. Mae'n rhoi archwiliad cartref trwyadl o'r holl ffactorau risg yn y cartref i gefnogi pobl i fyw'n annibynnol ar gyfer hirach a phrofwyd fod hynny yn gostwng nifer y cleifion sy'n gorfod mynd yn ôl i ysbyty a gohirio derbyn i ofal preswyl.

"Byddwn yn gofyn am, o leiaf reilen toiled yma a hyn yma ... ond fe fydd y gweithiwr achos yn mynd mas a chynnal asesiad llawn ar ben hynny ... Mae'n rhoi ychydig o sicrwydd i chi. Nid yn unig mae'r claf yn mynd i gael yr hyn yr ydych wedi gofyn amdano ond rydych chi'n gwybod y caiff popeth ei wirio"

**Rachel King,**
Therapydd Galwedigaethol
**Ysbyty Ystrad Fawr**

"Mae safon rhyddhau yn llawer gwell ers i ni gael Gofal a Thrwsio oherwydd fod llawer mwy o wiriadau nag y byddem wedi eu gwneud a gweithredu arnynt o'r blaen. Os oes gennych bobl gyda phethau fel problemau ar y frest gyda lleithder a phethau mewn adeilad, oherwydd fod yr adeiladau hynny wedi cael eu newid nawr, mae hynny'n golygu nad ydynt yn gorfod mynd yn ôl i ysbyty yn y dyfodol oherwydd cyflwr y tŷ. Felly mae'n sgil-effaith ataliol"

**Tracy Daniel,**
Arweinydd Tîm Orthopaedeg Band 7
**Ysbyty Tywysoges Cymru**

"Rwyf yn gwybod fod Gofal a Thrwsio yn cysylltu gyda'r holl gleifion rydym wedi eu hatgyfeirio pan gânt fynd adre ac y gall anghenion fod wedi cael eu dynodi nad oedd yn hanfodol ar gyfer rhyddhau, neu efallai y bydd y gweithiwr achos yn dod yn ôl a dweud bod y claf wedi mynd adre ond maent yn cael trafferth mawr gyda hyn ... ac mae hynny yn rhywbeth fyddid wedi ei golli pe na fyddai gennym weithiwr achos Ysbyty i Gartref Iachach. Mae'n bwysicach i'r claf hefyd. Mae'n naid fawr - gallwch  ddod i arfer gyda bod mewn sefydliad yn yr ysbyty"

**Vinny Tilley,**
Therapydd Galwedigaethol
**Ysbyty Cymunedol Inffirmari Dinbych,**
**Ysbyty Cymunedol Rhuthun**



"Bydd gweithiwr achos Ysbyty i Gartref Iachach bob amser yn gwneud gwiriad llesiant wedyn, hyd yn oed pan mae'r gwasanaeth wedi ei gwblhau. Neu pe byddem yn dweud "rydyn ni wedi anfon yr atgyfeiriad yma fodd bynnag gallai fod yn well os ydych yn cwrdd â nhw wyneb yn wyneb", cael y cyfle hwnnw ar gyfer yr ymweliadau cartref wyneb yn wyneb. Mae hynny'n wirioneddol fuddiol i'r unigolyn hefyd, nid dim ond ni fel gweithwyr proffesiynol. I'r unigolyn gwrdd â phobl. Cefnogaeth y grantiau y gall Lleucu gael gafael arnynt oherwydd nad yw rhai pobl yn hoffi gofyn am help .. fe wnânt y tro gyda'r hyn sydd ganddyn nhw"

**Bethan Williams,**
Gweithiwr Cymdeithasol yn y
Cyd-Dîm Rhyddhau
**Ysbyty Llwynhelyg**

"Weithiau chi yw'r aelod o'r teulu nad oes ganddyn nhw"

**Lucy Summers,**
Gweithiwr Achos Ysbyty i Gartref Iachach, yn gweithio yn Ysbyty Tywysog Philip ac Ysbyty Glangwili

## 6. Ehangu i Adrannau Brys i gynorthwyo gyda Rhyddhau i Wella yna Asesu

Mewn rhai ardaloedd mae'r gwasanaeth wedi ehangu tu hwnt i'w wardiau gwreiddiol i gynnwys yr Adran Argyfwng fel y gall cleifion gael eu troi o amgylch yn y drws blaen gyda chymorth ychwanegol i osgoi derbyn i ysbyty. Yn yr ardaloedd hyn, mae'r gwasanaeth yn cefnogi Rhyddhau i Wella yna Asesu.

> "Er enghraifft, menyw eiddil oedrannus a all fod wedi cwympo a thorri ei harddwrn. Mewn amgylchiadau arferol, mae'n ymdopi'n eithaf da adre ond oherwydd ei bod wedi torri asgwrn, mae'n golygu nad yw'n medru mynd o gwmpas mor annibynnol. Felly dyw hi ddim eisiau mynd i ysbyty, dydyn ni ddim angen iddi gael ei derbyn oherwydd mae ei chyflwr yn mynd i waethygu. Felly yr hyn rydyn ni eisiau yw ychydig bach o adnoddau ychwanegol i'w chefnogi yn ei chartref ei hun, a gallai hynny fod yn rhywbeth mor syml â chanllaw. Mae mor syml â hynny. Yn hanesyddol, byddai'n rhaid i ni wneud gymryd atgyfeiriad gwaith cymdeithasol. Fe fyddai'n rhaid i ni aros i weithiwr cymdeithasol gael ei ddyrannu. Ac yn anochel maent yn cael eu derbyn i ysbyty yn y pen draw. Felly o'n safbwynt ni, yn neilltuol yr Adran Argyfwng, mae Ysbyty i Gartref Iachach yn werthfawr tu hwnt."
>
> **Eleri Evans,**
> Pennaeth Nyrsio
> **Ysbyty Gwynedd**

Byddai angen adnoddau ychwanegol er mwyn ehangu'r model hwn i ysbytai eraill. Dylem nodi fod gwasanaethau Gofal a Thrwsio mewn rhai ardaloedd yn gweithio ar lefel gofal sylfaenol gyda chlystyrau meddygon teulu, a drwy ddulliau presgripsiynau cymdeithasol, maent yn rhoi blaenoriaeth i atal dibyniaeth ar wasanaethau mwy aciwt neu i roi ffocws parhaus ac amodau cysurus ar gyfer gwella adre.



# Cynnydd ar argymhellion blaenorol a wnaed yn 2019

## 1. Cynyddu cyfleoedd i'r eithaf ar gyfer byw annibynnol a chyflymu rhyddhau diogel

**Argymhelliad 1: 'cynnig' Asesiad Cartref Iach fel mater o drefn i bob claf eiddil sy'n cael eu rhyddhau o ysbyty fel ymyriad ataliol.**

Mae'r holl weithwyr achos sefydledig wedi sicrhau statws Asesydd Dibynadwy, gyda'r rhai a ymunodd ym mlwyddyn ariannol 2022-2023 naill ai'n cael neu'n agos at gael y cymhwyster hwn gan olygu y gallant gwblhau gwiriadau yn ddiogel ac yn broffesiynol.

Mae cyfanswm nifer y gwiriadau a gwblheir bob blwyddyn wedi cynyddu, fodd bynnag mae canran y cleifion sy'n derbyn gwiriad wedi gostwng. Mae ein gweithwyr achos yn derbyn mwy o atgyfeiriadau nag yw'n rhesymol ddisgwyl iddynt gael eu cwblhau. Yn lle hynny, mae ein gweithwyr achos wedi datblygu sgiliau mewn dynodi, brysbennu a blaenoriaethu cymorth Gwiriad Cartrefi Iach hirach ac yn gweithio drwy weithio gyda staff GIG a gofal cymdeithasol i ddynodi'r cleifion sydd fwyaf mewn angen cefnogaeth barhaus gyda thai a llesiant ar ôl cael eu rhyddhau.

**Argymhelliad 2: Care & Repair Cymru i ddatblygu canllawiau arfer da Ysbyty i Gartref Iachach i hybu effeithlonrwydd, affeithioldeb a chysondeb ar draws safleoedd ysbyty.**

Datblygu canllaw arfer da a'i rannu gyda phob gweithiwr achos.

Mae angen adolygu hyn a rhoddir amserlen iddo yn defnyddio'r adroddiad hwn ac wrth i brofiad gweithio i'r Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys ac Argyfwng ddynodi mwy o gyfle a rhoi mwy o ffocws

## 2. Rhoi gwerth ychwanegol a gostwng risgiau gorfod mynd yn ôl i ysbyty

**Argymhelliad 1: cysylltiad mwy ffurfiol rhwng Ysbyty i Gartref Iachach a pholisi cynllunio y GIG**

Gweithredu darniog ar egwyddorion polisi cenedlaethol ar draws iechyd, yn gysylltiedig gydag adferiad Covid a dull systematig at ddatblygu perthynas o gydweithio. Cafodd rhai cysylltiadau da eu sefydlu gydag Uned Cyflenwi GIG a pherthynas barhaus gyda Thîm Polisi Gofal Brys ac Argyfwng Llywodraeth Cymru.

Gallai fod mwy o rôl i Care & Repair Cymru ac Asiantaethau Gofal a Thrwsio wrth sicrhau fod y gwasanaeth yn fwy amlwg o fewn ysbyty a meithrin cysylltiadau.

**Argymhelliad 2: mwy o ddealltwriaeth o'r 'cynnig tai' gan Ysbyty i Gartref Iachach, efallai yn gysylltiedig gyda datblygu gweithlu GIG (hyfforddiant ymwybyddiaeth).**

Dull wedi'i sefydlu yn helaethach ar gyfer cynefino GIG ar gyfer dechreuwyr newydd, cylchdroi staff a staff asiantaeth i gynnwys ymwybyddiaeth o wasanaethau tai a byw annibynnol tebyg i Ysbyty i Gartref Iachach.

## 3. Cydleoli a gwella systemau GIG

**Argymhelliad 1: cyllid tymor hirach i gynnal ac ehangu model cyd-leoli darpariaeth gwasanaeth Ysbyty i Gartref Iachach.**

Mae cyfyngiadau Covid wedi arwain at addasu'r model cydleoli, gan ddangos pa mor ystwyth ac ymatebol yw'r gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn parhau i ddynodi'r presenoldeb safle a system cyfathrebu mwyaf effeithlon i gynyddu hygyrchedd y gwasanaeth i'r eithaf ar gyfer staff prysur y GIG.

Mae'r gwasanaeth yn parhau i brofi problemau gyda chyllid hirdymor.

## 4. Cleifion/Cleientiaid a Throsglwyddo Gofal

**Argymhelliad 1: Dylai dolenni adborth gael eu sefydlu i sicrhau y caiff adroddiadau ôl-ryddhau Ysbyty i Gartref Iachach eu rhoi i weithwyr proffesiynol yn y MDT ar gyfer cydlynu rhyddhau.**

Cafwyd adborth a chyfathrebu cadarnhaol rhwng gweithwyr achos a staff GIG ei ddynodi fel rhywbeth cadarnhaol yn ystod y cyfnod gwerthuso hwn yn canmol y diweddariadau rhagweithiol ar waith i gartrefi cleifion.



# Y peth nesaf i'r gwasanaeth: argymhellion newydd yn seiliedig ar ddysgu newydd

## Argymhelliad 1: cadw neu ail-sefydlu presenoldeb corfforol ym mhob ysbyty

Mae'r adroddiad hwn yn ei gwneud yn glir fod yr amrywiad ar draws y gwasanaeth mewn presenoldeb mewn ysbytai yn gryfder yn y gwasanaeth. Nid oes 'un maint i ffitio pawb'. Fodd bynnag mae'n glir o'n hymchwil ansoddol y byddai sicrhau presenoldeb corfforol rheolaidd ar draws pob ysbyty yn dod â buddion lluosog i weithwyr achos, staff GIG a chleifion.

> "Byddai'n braf cael y gweithiwr achos yn gwneud ychydig mwy yn ôl ar safleoedd. Rydyn ni yn ei golli. Yr un peth gyda'n cydlynwyr rhyddhau Efallai y gallem wneud rhywbeth gyda nhw'n dod mewn tua dwywaith yr wythnos. Gallent hyd yn oed ddod at ei gilydd ar ddiwedd cyfarfod band, efallai dim ond i ddweud, iawn, rydyn ni yma"
>
> **Eleri Evans,**
> Pennaeth Nyrsio
> **Ysbyty Gwynedd**

> "Byddai'n ychwanegiad grymus iawn. Ond nid yw diffyg presenoldeb yn yr ysbyty o reidrwydd yn mynd yn y ffordd oherwydd fod y llwybr i gysylltu â'r gwasanaeth mor agored. Ond gallai hynny ei ategu. Yn sicr ni fyddai cysylltiad wyneb-i-wyneb yn llesteirio pethau"
>
> **Wayne Turner,**
> Gweithiwr Cymdeithasol
> **Ysbyty Brenhinol Gwent**

## Argymhelliad 2: Holl weithwyr achos Ysbyty i Gartref Iachach yn cael eu hintegreiddio i gyfarfodydd cynllunio rheolaidd

Dynodwyd hyn fel enghraifft o arfer da yn yr adroddiad hwn a dylid ei ehangu ar draws pob gweithiwr achos ar draws pob prif safle i sicrhau fod y gwasanaeth yn parhau i gael ei weld a'i sefydlu'n dda.

## Argymhelliad 3: Cynnwys Ysbyty i Gartref Iachach mewn gwybodaeth cynefino ar gyfer holl staff newydd perthnasol y GIG

Cafodd cynnwys gwybodaeth am y gwasanaeth fel rhan o sesiynau cynefino ar gyfer staff newydd, cylchdroi staff a staff asiantaeth ei ddynodi fel enghraifft o arfer da sy'n digwydd ar draws nifer o'r ysbytai mae'r gwasanaeth yn gweithredu ynddo, a dylid ei ehangu i bawb.

## Argymhelliad 4: sesiynau gwybodaeth rheolaidd gyda gweithwyr achos Ysbyty i Gartref Iachach i hysbysu staff GIG am y cymorth newydd y gall y gwasanaeth ei roi

Mae natur cyllid trydydd sector yn golygu y gall cwmpas ein gwasanaeth newid dros amser wrth i grantiau newydd ar gyfer gwaith ddod ar gael, gan olygu y byddai sesiynau gloywi rheolaidd am y gwasanaeth a'i gwmpas o fudd i staff a chleifion.

## Argymhelliad 5: gwybodaeth gwasanaeth i'w rhoi i gleifion ar gyfer hunanatgyfeiriad

> "Mae'r holl ethos hwn o rymuso cleifion i wneud cymaint drostynt eu hunain ag sy'n bosibl. Byddai'n wych pe byddai taflen gyfredol, gyda'r gwasanaethau ychwanegol sydd ar gael neu ffyrdd y gallai cleifion atgyfeirio eu hunain"
>
> **Rachel King,**
> Therapydd Galwedigaethol
> **Ysbyty Ystrad Fawr**

## Argymhelliad 6: datblygu cronfa caledi ar gyfer gwaith glanhau a dad-gelcio sydd ar gael i weithwyr achos Ysbyty i Gartrefi Iachach i gefnogi rhyddhau o ysbyty

Er nad oedd dad-gelcio a glanhau dwfn yn rhan o'n gwerthusiad peilot yn 2019, codwyd y pwnc ym mhob bwrdd iechyd y buom mewn cysylltiad â nhw yn ystod proses yr adroddiad hwn. Mae ein gweithwyr achos yn gyson yn profi mwy o alw am wasanaethau dad-gelcio:

> "Mae angen dybryd am arian ar gyfer dad-gelcio. Mae rhai o'r gweithwyr achos yn mynd allan ac yn gwneud y gwaith dad-gelcio eu hunain. Rydym wedi cael pump achos dad-gelcio yr wythnos hon"
>
> **Meinir Woodgates,**
> Gweithiwr Achos Ysbyty i Gartref Iachach, Gofal a Thrwsio Sir Pen-y-bont ar Ogwr yn siarad yn Awst 2022, yn gweithio yn Ysbyty Tywysoges Cymru

Gallodd Care & Repair Cymru gynnig Cronfa Dad-gelcio i ddiwallu'r angen hwn ym mlwyddyn ariannol 2021-2022:

> "Mae bob amser yn mynd yn ôl i therapydd galwedigaethol i'w sortio er y gallai'r person fod yn hollol annibynnol heb unrhyw anghenion swyddogaethol. Felly rwy'n credu fod hynny wedi bod yn wasanaeth gwirioneddol da [cronfa dad-gelcio Ysbyty i Gartref Iachach] er mwyn cysylltu gyda hynny oherwydd fod hynny'n fwlch mawr"
>
> **Bethan Hughes,**
> Arbenigydd Clinigol Therapi Galwedigaethol
> **Ysbyty Gwynedd**

Fodd bynnag, nid yw'r angen wedi diflannu. A siarad yn gyffredinol, roedd staff GIG hefyd yn cydnabod amledd cynyddol a phriodolwyd hynny ymysg pethau eraill i ynysigrwydd a diffyg mynediad i wasanaethau cymunedol yn ystod cyfyngiadau y cyfnod clo a all fod wedi atal tueddiadau celcio sylfaenol i grynhoi yn beryglon yn y cartref.

## Argymhelliad 7: meithrin partneriaethau ar lefel strategol i helpu i reoli a monitro'r gwasanaeth

Mae'r adroddiad wedi dangos y berthynas gref ar lefel weithredol sydd gan weithwyr achos gyda staff clinigol ar draws y gwasanaeth. Byddai'r gwasanaeth yn manteisio o berthynas strategol gryfach i gyfathrebu llwyddiannau'r gwasanaeth, yn cynnwys deilliannau cleifion, budd cost, gostwng pwysau ar ysbytai ac ateb nodau polisi tymor hirach.

## Argymhelliad 8: cytundebau rhannu data i ganiatáu gwell mesur deilliannau cleifion

Er ein bod yn casglu ein data ein hunain ar ddeilliannau cleifion, byddai hyn yn cael ei gryfhau ar gyfer y ddwy ochr drwy weithio'n fwy agos gyda byrddau iechyd. Diolch i'n cefnogaeth hirdymor i gleifion, gallwn cynnig data hydredol i fyrddau iechyd am annibyniaeth cleifion a'u hyder yn eu cartrefi, yn ogystal â mynediad i straeon ac astudiaethau achos am gleifion yn hir ar ôl i'r claf fynd adref, er mwyn deall yn well y bylchau mewn darpariaeth gwasanaeth. O safbwynt Gofal a Thrwsio, rydym wedi gweithio gydag un bwrdd iechyd i ganfod cyfradd dychwelyd i'r ysbyty ar gyfer y gwasanaeth, a dymunwn ddatblygu'r gwaith dechreuol hwnnw i brofi ymhellach a meintioli buddion y buddion ychwanegol i'r gwasanaeth o safbwynt iechyd.

## Argymhelliad 9: cyllid cynaliadwy hirdymor ar gyfer y gwasanaeth

Mae'r gwasanaeth wedi profi ei werth yn nhermau arbedion cost, deilliannau cleifion a lles staff. Mae'r gwasanaeth yn llenwi bwlch yn y broses rhyddhau o ysbyty nad oes gan fyrddau iechyd y cwmpas neu'r gallu i'w wneud. Er mwyn datblygu ac arloesi, mae'n rhaid i'r gwasanaeth gael sicrwydd cyllid hirdymor.



# Proffiliau Byrddau Iechyd Lleol

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Gwasanaeth sy’n mynd o nerth i nerth gyda chefnogaeth leol.

Gofal a Thrwsio Blaenau Gwent a Chaerffili, Gofal a Thrwsio Sir Fynwy a Thorfaen, Gofal a Thrwsio Casnewydd

### 4 prif ysbyty a 4 gweithiwr achos






### Ysbytai Cymunedol

Gwynllwg, Parc Mardy, Ysbyty Cymunedol Cas-gwent, Canolfan Iechyd a Gofal Cymunedol Monnow Vale, Hosbis Dewi Sant, Ysbyty Royal Papworth, Ysbyty Sirol Pont-y-pŵl

## Stori Claf

Mae Mrs H yn 77 mlwydd oed a chafodd ei hatgyfeirio at Weithiwr Achos Ysbyty i Gartref Iachach tra’r oedd yn glaf yn Ysbyty Nevill Hall, yn dilyn strôc rhedwelïol dde lawn.

Gwnaed atgyfeiriad i Therapydd Galwedigaethol i ddarparu soced drydan ychwanegol yn y lolfa flaen ar gyfer gwely ysbyty yn barod iddi ddod adref. Ni fedrid gosod y gwely heb i soced fod ar gael gan olygu y byddai’r pecyn gofal yn cael ei golli. Soniodd y trydanwr a drefnwyd gan Gofal a Thrwsio i osod y socedi ychwanegol yn y lolfa am bryderon wrth y gweithiwr achos am ddiogelwch y gwaith trydan yn yr adeilad ac argymhellodd fod y socedi yn y gegin yn cael eu hailweirio fel mater o frys.

Roedd merch y claf wedi mynd ati i helpu drefnu’r tŷ fodd bynnag roedd yn teimlo wedi llethu ac ar ben ei hun.

Trefnodd y Gweithiwr Achos i gynnal asesiad Gwiriad Cartrefi Iach gyda merch Mrs H. Trefnodd yr Asiantaeth y contractwr i dynnu’r drws i’r ystafell fyw ar gyfer y gwely ysbyty a gosod polyn llenni yn lle llen drom i wneud cynllun yr ystafell fyw yn fwy hylaw. Fe wnaethom hefyd roi cyllid i gau’r lle tân i atal drafftiau a llwch gyda chyllid Grant Gofal a Diogelwch Gartref. Fe wnaethom gyllido ailweirio a gosod soced ychwanegol yn y gegin ar gyfer peiriant golchi drwy’r Rhaglen Addasiadau Brys gan fod y claf yn dioddef o anymataliaeth dwbl.

Fe wnaeth y gweithiwr achos hefyd gwblhau gwiriad budd-daliadau lles gyda Mrs H a’i merch. Arweiniodd hyn at i Mrs H dderbyn Lwfans Byw i’r Anabl ar lefel uwch, gan gynyddu ei hincwm blynyddol i £3,426.80. Fe wnaethom helpu merch Mrs H i wneud cais am Lwfans Gofalwr, gan gynyddu ei hincwm gan £3,515.20 y flwyddyn a thrafod y cyngor a’r cymorth oedd ar gael iddi yn lleol fel gofalwr newydd. Roedd hyn yn cynnwys Canolfan Gofalwyr Torfaen ar gyfer cyngor cyfreithiol a’r Rhaglen Cymorth i Ofalwyr Newydd. Yn dilyn trafodaeth, cytunodd Mrs H i’r Gweithiwr Achos ei chofrestru ar gyfer cofrestr Gwasanaeth Blaenoriaeth Western Power Distribution gyda chaniatâd i rannu ei manylion gyda Wales & West Utilities a Dŵr Cymru. Cafodd canfyddwyr mwg a gwres hefyd eu gosod heb ddim cost i Mrs H.

Fe wnaeth y gwaith yn yr eiddo alluogi Mrs H i gael ei rhyddhau’n ddiogel o’r ysbyty. O atgyfeiriad dechreuol am soced drydanol, gwnaeth ein gweithiwr achos yn siŵr fod y cartref yn gynnes, diogel ac yn rhydd o ddrafftiau i sicrhau y gall Mrs H fyw’n gysurus. Gallodd merch Mrs H gael mynediad i gyngor a chymorth gwerthfawr a chynyddodd y teulu eu hincwm blynyddol gan gyfanswm o £6942.

> “Rydych chi’n angel. Diolch yn fawr iawn i chi am eich help, gofal a chymorth. Mae’n wirioneddol yn cael ei werthfawrogi”
>
> **merch Mrs H**



## Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Model darpariaeth cartref yn gyntaf mewn ardal ddaearyddol wasgaredig

Gofal a Thrwsio Gwynedd a Môn, Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych, Gofal a Thrwsio Gogledd Ddwyrain Cymru

### 3 prif ysbyty a 3 gweithiwr achos






### Ysbytai cymunedol

Ysbyty Glannau Dyfrdwy, Ysbyty Cymunedol yr Wyddgrug, Ysbyty Cymunedol y Waun, Ysbyty Cymunedol Rhuthun, Ysbyty Cymunedol Bae Colwyn, Ysbyty Cymunedol Dinbych, Ysbyty Penrhos Stanley,Ysbyty Cefni, Ysbyty Eryri, Ysbyty Bryn Beryl, Ysbyty Alltwen, Ysbyty Tywyn, Ysbyty Dolgellau.

## Stori claf

**Mae Mr J yn 84 oed, yn byw ar ben ei hun a chafodd ei dderbyn i'r adran Damweiniau ac Argyfwng yn Ysbyty Gwynedd, Bangor ar ôl cwympo yn ei gartref. Mae ganddo arthritis gwael iawn.**

Cyn ei ryddhau o'r ysbyty, cafodd gweithiwr achos Ysbyty i Gartref Iachach atgyfeiriad gan y therapydd galwedigaethol ar ddyletswydd yn yr adran Damweiniau ac Argyfwng am ganllaw banister ychwanegol a gosod canllaw ar y wal yn ymyl y toiled yn yr ystafell ymolchi lawr grisiau. Gwnaed y gwaith hwn gan y tasgmon ddau ddiwrnod yn ddiweddarach, wedi'i gyllido drwy'r Rhaglen Addasiadau Brys ar gost o £116.

Ar ôl i'r gwaith dechreuol gael ei gwblhau, cynhaliodd y Gweithiwr Achos Wiriad Cartref Iach a gwiriad budd-daliadau. Daeth yn amlwg fod gan Mr Jones nifer o addasiadau bach o amgylch y tŷ a osodwyd yn flaenorol gan Gofal a Thrwsio ar gyfer anghenion ei wraig, ond roedd hi wedi marw y flwyddyn flaenorol. Dywedodd Mr Jones ei fod yn ymdopi yn "weddol dda" ond wedi bod yn cael trafferthion ers tipyn gyda dim ond un canllaw banister ar y grisiau. Roedd y canllaw ychwanegol wedi bod yn "wirioneddol ddefnyddiol ac wedi rhoi cefnogaeth a hyder ychwanegol iddo" wrth ddefnyddio'r grisiau, ac roedd hynny'n gwneud iddo deimlo'n well.

Roedd Mr Jones yn eithaf amharod i ddechrau i hawlio unrhyw fudd-daliadau, felly rhoddodd y Gweithiwr Achos wybodaeth iddo ar Lwfans Gweini a sut y gallai yn awr yn hawlio Treth Cyngor un preswylydd (gan nad oedd wedi meddwl am hysbysu'r Cyngor ei fod yn byw ar ben ei hun bellach), gan addo ei ffonio'n ôl. Penderfynodd Mr Jones i fynd ymlaen gyda'r cyngor ar fudd-daliadau. Arweiniodd hyn at iddo dderbyn ad-daliad gan y Cyngor o £461 ac yna ostyngiad o 25% ar ei Dreth Gyngor yn y dyfodol. Bu ei hawliad am Lwfans Gweini yn llwyddiannus a chafodd swm unigol o £537.60 ac yna daliad wythnosol o £89.15.



## Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Cryfder ymsefydlu mewn ysbytai

Gofal a Thrwsio Pen-y-bont ar Ogwr a Gofal a Thrwsio Cwm Taf

### 3 ysbyty a 6 gweithiwr gofal






### Ysbytai Cymunedol

Ysbyty Glanrhyd, Clinig Angelton, Ysbyty Seren, Ysbyty Llynfi, Ward 21 (adleoli ysbyty Maesteg), Bryn y Cae

## Stori claf

**Mae Mr C yn 70 oed a chafodd ei dderbyn i Ysbyty Tywysoges Cymru ar ôl iddo gwympo yn ei gartref. Dynodwyd fod angen glanhau dwfn a dad-gelcio ei gartref cyn iddo gael ei rhyddhau o'r ysbyty. Cafodd ein Gweithiwr Achos Ysbyty gyfarfod gyda'r cwmni glanhau arbenigol yng nghartref Mr C, gyda'i ganiatâd.**

Cafwyd dyfynbris o £995 ar gyfer glanhau dwfn a dad-gelcio'r cartref, yn cynnwys symud gwastraff, gwastraff halogedig a golchi carpedi a chelfi. Talwyd y gost allan o gronfa dad-gelcio Ysbyty i Gartref Iachach Care & Repair Cymru a Chronfa Caledi Cyn Aelodau'r Lluoedd Arfog.

Fodd bynnag, canfuwyd nad oedd dŵr twym na gwres yn y cartref a bod angen gosod toiled newydd. Sicrhaodd y Gweithiwr Achos Grant Cartrefi Iach £350 i drwsio boeler Mr C a gosod toiled newydd.

Cysylltodd y Therapydd Galwedigaethol yn yr ysbyty â'r Gweithiwr Achos i ofyn am gymorth i gael cadair gostwng ar gyfer Mr C. Gallodd y Gweithiwr Achos sicrhau cyllid grant o £795 i brynu cadair gostwng oedd wedi ei delifro erbyn adeg rhyddhau o'r ysbyty. Fodd bynnag, canfuwyd ar ôl i'r gadair gyrraedd nad oedd soced drydan gyfleus, ac felly sicrhawyd grant Rhaglen Addasiadau Brys i osod soced drydan newydd yn y cartref.

Roedd Mr C yn bryderus am ddychwelyd adref ac efallai syrthio eto. Fe wnaeth y Gweithiwr Achos felly gynnal asesiad Teleofal gydag ef ar y ward a threfnu i'n Swyddog Diogelwch Cartref osod y system y diwrnod cyn iddo gael ei ryddhau.

Cafodd Mr C ei ryddhau ar ôl cwblhau'r gwaith uchod ac ymwelodd y Gweithiwr Achos ag ef o fewn wythnos yn ei gartref i gwblhau asesiad llawn. Llenwodd ffurflen gais am Lwfans Gweini a olygodd gynnydd o £89.60 yr wythnos.

Trefnodd hefyd i Therapydd Galwedigaethol yr Asiantaeth ymweld â Mr C. Ers hynny mae wedi cyflwyno argymhellion i'r awdurdod lleol am Grant Cyfleusterau i'r Anabl am ystafell wlyb. Mae'r Gweithiwr Achos yn cynorthwyo gyda'r cais hwn ar hyn o bryd.

Roedd Mr C yn dal yn bryderus am ei foeler gan ei fod yn hen ac aneffeithiol iawn ac mae'n annhebyg y byddai rhannau ar gael pe byddai'n torri eto. Cododd y Gweithiwr Achos £3,000 o gyllid dyngarol gan gronfa elusennol yr Awyrlu Brenhinol a chafodd system boeler newydd ei gosod yn ei gartref.

Mae problemau parhaus gyda tho gwastad ar dŷ Mr C. Mae ein Swyddog Technegol wedi ymweld ac yn trefnu dyfynbrisiau ar gyfer y gwaith atgyweirio. Gan fod Mr C yn awr yn derbyn Lwfans Gweini, bydd yn gymwys am Grant Cysur, Diogelwch a Sicrwydd, a bydd y Gweithiwr Achos yn prosesu hynny ar ei ran.



## Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Gweithio partneriaeth – PIVOT

Gofal a Thrwsio Sir Gaerfyrddin a Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru

### 3 ysbyty a 2 weithiwr achos




### Ysbytai cymunedol

Ysbyty De Sir Benfro, Ysbyty Bwthyn Dinbych-y-pysgod, ysbyty Dyffryn Aman

## Stori claf

**Roedd Ms F yn glaf 63 oed yn ysbyty Llwynhelyg a gafodd ei hatgyfeirio at Weithiwr Achos Ysbyty i Gartref Iachach gan un o'r gweithwyr cymdeithasol yn y Cyd-Dîm Rhyddhau. Cafodd ei derbyn i'r ysbyty yn dioddef o fethiant arennau ac afu. Y cais dechreuol oedd cefnogi'r claf gyda rhai mân addasiadau i'w chartref iddo fod yn ddiogel ac addas iddi ddychwelyd iddo.**

Roedd staff yn bryderus am ei chyflwr gan gwestiynu pam na chafodd ei derbyn i ysbyty yn gynharach. Oherwydd hyn, daeth y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gysylltiedig oherwydd pryderon fod y claf, fel oedolyn bregus, wedi cael ei cham-drin a/neu ei hesgeuluso ac na fu gweithredu i'w chadw'n ddiogel rhag anaf a risg. Gwnaed gorchymyn Diogelu Oedolyn Bregus, gydag aelod o'i haelwyd ar y rhestr. Golygai hyn fod yn rhaid i'r claf ganfod rhywle arall i fyw.

Roedd y claf wedi etifeddu hen gartref ei mam ac ar ôl llawer o drafodaethau gyda'r claf, penderfynwyd y byddai'n symud yno ar ôl iddo gael ei glirio, glanhau a'i wneud yn ddiogel iddi. Nid oedd gan y claf gynilon ac dim gwybodaeth ariannol na chardiau yn yr ysbyty. Trefnodd Gofal a Thrwsio i'r adeilad gael ei wagu a chysylltodd y Gweithiwr Achos gyda pherthynas y claf i gasglu ei heiddo. Talodd Gofal a Thrwsio am storio'r eitemau hyn er mwyn cyflymu'r broses o baratoi'r tŷ a chyflymu rhyddhau o ysbyty. Yna trefnodd y Gweithiwr Achos i'r dŷ gael ei lanhau'n drwyadl a sicrhaodd y cyllid ar gyfer hyn.

Nid oedd cegin yn yr adeilad felly sicrhaodd y Gweithiwr Achos gypyrddau am ddim gan gysylltiadau Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru gyda chymdeithas tai a phrynu bwrdd gwaith mawr dan y Rhaglen Addasiadau Brys. Gosododd tasgmon Gofal a Thrwsio y bwrdd gwaith a'r cypyrddau yr un diwrnod i sicrhau y gallai'r claf baratoi bwyd ar ôl iddi gael ei rhyddhau o ysbyty. Prynwyd peiriant golchi a ffwrn gan Gronfa Caledi ganolog Gofal a Thrwsio a chafwyd llestri gan elusen Frame, partner Gofal a Thrwsio yn lleol.

Ar ôl i Ms F gael ei rhyddhau o'r ysbyty, ymwelodd y Gweithiwr Achos i gynnal gwiriad Cartrefi Iach. Gosododd Gofal a Thrwsio ganllawiau o amgylch yr adeilad drwy'r Rhaglen Addasiadau Brys i wella diogelwch y cartref a gostwng risg o syrthio. Cyfeiriodd y Gweithiwr Achos hi at Nyth ar gyfer system wresogi newydd, y Gwasanaeth Tân ar gyfer larymau tân a gwnaed atgyfeiriad am ystafell wlyb hygyrch. Fe wnaeth gweithiwr achos Ysbyty i Gartref Iachach hefyd archebu cymhorthion yn cynnwys comôd, stôl a sedd uwch ar gyfer y toiled..

Yn olaf, cynhaliwyd gwiriad budd-daliadau a gwnaeth y Gweithiwr Achos gais llwyddiannus ar ran y claf am ostyngiad treth gyngor o 25%.

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Gweithio ledled y Bwrdd Iechyd
Gofal a Thrwsio Bae Gorllewinol

### 3 ysbyty a 2 weithiwr achos










**Ysbytai cymunedol**
Singleton

## Stori Claf



**Roedd Mrs S wedi cael strôc. I'w chefnogi i ddychwelyd o'r ysbyty, roedd Gofal a Thrwsio wedi gwneud gwahanol weithiau dan atgyfeiriad Rhaglen Addasiadau Brys gan yr ysbyty, yn cynnwys rheiliau allanol a rheilen ddur mewn llwybr yn y cefn, rheilen coes mop ar y grisiau. Roedd y gweithiau hyn yn hanfodol i sicrhau y gallai Mrs S ddychwelyd adre o'r ysbyty i barhau ei hadferiad yn ddiogel.**

Ar ôl cwblhau'r gweithiau hanfodol hyn, roedd Gweithiwr Achos Ysbyty i Gartref Iachach wedi cysylltu a threfnu ymweld i gynnal Gwiriad Cartrefi Iach a thrafod unrhyw bryderon a fedrai fod gan Mrs S.

Roedd gwely Mrs S yn dal i fod lawr grisiau ac nid oedd yn defnyddio'r rheilen coes mop a osodwyd i'w chefnogi hyd yma, ond roedd wedi bod yn mynd i fyny ac i lawr y grisiau gyda'i pherthnasau er mwyn dod i arfer. Eisteddodd y Gweithiwr Achos a gwrando ar ei phryderon; roedd yn fenyw benderfynol iawn sy'n bwriadu bod yn gadarnhaol am ei hadferiad er y gwyddai y bydd angen amser i addasu i effeithiau ei strôc. Cynhaliodd y gweithiwr achos wiriad budd-daliadau a thrafod cais am Lwfans Gweini. Ni wyddai Mrs S am y Lwfans Gweini ac roedd yn hapus i wneud cais. Gwnaed cais a a olygodd y dyfarnwyd lefel uwch o Lwfans Gweini, gan olygu £4,635 y flwyddyn ychwanegol o incwm.

Wrth gynnal y Gwiriad Cartrefi Iach, nododd y Gweithiwr Achos nad oedd canfyddwr mwg ar y llawr cyntaf. Cafodd y mater ei atgyfeirio at y Gwasanaeth Tân a osododd larymau mwg am ddim.

## Gyda diolch i


**Ni fyddai gwasanaeth Ysbyty i Gartref Iachach heb ein Gweithwyr Achos gwych. Mae llwyddiant y gwasanaeth yn seiliedig ar eu gwaith caled.**

**Hoffem ddiolch i Weithwyr Achos dilynol Ysbyty i Gartref Iachach:**

Allyn Litchfield a Julie Lomas, yn gweithio yn Ysbyty Tywysog Charles ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg

Amy Black, yn gweithio yn Ysbyty Maelor Wrecsam

Carol Wiliams, yn gweitho yn Ysbyty Gorseinon, Ysbyty Treforys ac Ysbyty Castell-nedd Port Talbot

Cath Tetley, yn gweithio yn Ysbyty Ystrad Fawr

Danielle Hankey, yn gweithio yn Ysbyty Glan Clwyd

Donna Coughlin a Vicky McGrath, yn gweithio yn Ysbyty y Faenor ac Ysbyty Nevill Hall

Elin Evans, yn gweithio yn Ysbyty Gwynedd

Gethyn Peploe, yn gweithio yn Ysbyty Brenhinol Gwent

Jemma Lewis a Claire Miles, a arferai weithio yn Ysbyty Tywysog Charles ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg

Lleucu Powel, yn gweithio yn Ysbyty Llwynhelyg

Meinir Woodgate, Cath Dixon, Lisa Sullivan a Christine Beadsworth, yn gweithio yn Ysbyty Tywysoges Cymru

**Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i staff GIG a roddodd eu hamser i gael eu cyfweld ar gyfer yr adroddiad hwn:**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

Catherine Williams, Therapydd Galwedigaethol, Ysbyty Ystrad Fawr

Joshua Curtis, Cydlynydd Rhyddhau Ward D4 Dwyrain, Ysbyty Brenhinol Gwent

Rachel King, Therapydd Galwedigaethol, Ysbyty Ystrad Fawr

Wayne Turner, Gweithiwr Cymdeithasol, Tîm Cartref Gyntaf, Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Nevill Hall

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

Bethan Hughes, Arbenigydd Clinigol Therapi Galwedigaethol, Ysbyty Gwynedd

Eleri Evans, Pennaeth Nyrsio, Ysbyty Gwynedd

Olivia Newton-Hale, Therapydd Galwedigaethol, Tîm Llawdriniaeth, Ysbyty Gwynedd

Vinny Tilley, Therapydd Galwedigaethol, Ysbyty Cymunedol Inffirmari Dinbych

Zoe Hall, Therapydd Galwedigaethol, Ysbyty Eryri

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf**

Charlotte Warner, Therapydd Galwedigaethol Band 7, Tîm Meddygol Aciwt, Ysbyty Tywysog Charles

Tracy Daniel, Arweinydd Tîm Band 7, Orthopaedeg Trawma, Ysbyty Tywysog Charles

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**

Bethan Williams, Gweithiwr Cymdeithasol, Cyd-Dîm Rhyddhau, Ysbyty Llwynhelyg

Sarah Davies, Ffisiotherapydd TOCALS, Glangwili

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe**

Lynne Driscoll, Matron Safle, Ysbyty Castell-nedd Port Talbot


**Ôl-nodiadau:**

CRC – Care & Repair Cymru

CRAs – Care & Repair Agencies

H2HH – Hospital to a Healthier Home

H2H – Hospital to Home, the name of the service in Bridgend County Care & Repair where the service was initially proto-typed and developed

[i]Stats Cymru, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Amserau Aros Ysbytai GIG Atgyfeiriad i Driniaeth. Cyrchwyd Awst 2022. Ar gael yn: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/NHS-Hospital-Waiting-Times/Referral-to-Treatment/patientpathwayswaitingtostarttreatment-by-month-groupedweeks-treatmentfunction ; Ymchwil Senedd, Gohirio Mynediad - Ôl-groniad Amserau Aros yn GIG Cymru (Mehefin 2022). Ar gael yn:: https://research.senedd.wales/research-articles/access-delayed-the-waiting-times-backlog-in-nhs-wales/

[ii]Stats Cymru, Amserau Aros GIG. Cyrchwyd Awst 2022. Ar gael yn: : https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/NHS-Hospital-Waiting-Times/emergency-department/performanceagainst4hourwaitingtimestarget-by-hospital

Adroddiad wedi'i baratoi gan Faye Patton,
**H2HH Rheolwr Prosiect**

Care & Repair
Gofal a Thrwsio

www.careandrepair.org.uk

dewch o hyd i ni ar

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

**Cysylltwch â'ch Asiantaeth Gofal a Thrwsio leol**
**0300 111 3333**

**Care & Repair Cymru**
**029 2010 7580**